

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
Dyddiad / Date:	01.04.22
Pwnc / Subject:	Newidiadau i drefniadau asesu ysgolion cyfredol a phrosbectws awdurdodau lleol

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

At ei gilydd, rydym yn cytuno'n gryf â'r cynigion ar ddiddymu asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2. Rydym yn meddwl y bydd hyn yn helpu cefnogi'r system addysg tuag at nodau ac amcanion bwriadedig y Cwricwlwm i Gymru trwy:

- Ddileu'r cyswllt rhwng asesu ac atebolrwydd
- Caniatáu'r gofod i arweinwyr ac athrawon ailddychmygu asesu fel rhywbeth sy'n hanfodol i addysgu da
- Symud y meddwl ar gyfer asesu effeithiol oddi wrth olrhain crynodol tuag at ddulliau ffurfiannol parhaus sy'n galluogi addysgu i fod yn ymatebol i anghenion disgyblion
- Canolbwyntio meddyliau ysgolion ar ddiben asesu a sut i ymgorffori ystod o ddulliau wrth iddynt gynllunio'r cwricwlwm ar draws sectorau
- Dileu'r ffocws ar gasglu data nad yw'n darparu mewnwelediadau digonol ar yr hyn y mae disgyblion yn ei wybod ac yn gallu ei wneud, ac nad yw bob amser yn effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu ac yn cefnogi dysgu disgyblion
- Annog ysgolion i feddwl yn fwy cyfannol am ansawdd yr addysgu sydd ei angen i ddarparu gwybodaeth gyfoethocach a mwy defnyddiol am ddysgu disgyblion.

Wrth ddiddymu'r gofynion i gymedroli asesiadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a diwedd Cyfnod Allweddol 3, rydym yn cytuno â'r cynnig am y rhesymau canlynol:

- Os caiff asesiadau Cyfnod Allweddol 2 eu dileu, yna nid oes angen cynnal y broses gymedroli.
- Bydd yn dileu'r baich ar ysgolion i baratoi deunydd ar gyfer cyfarfodydd cymedroli, nad ydynt bob amser yn darparu profiadau defnyddiol i athrawon ddeall dysgu disgyblion neu effaith addysgu.
- Bydd yn caniatáu amser i ysgolion a chlystyrau feddwl am eu rhwydweithiau cyfredol (neu'u datblygu ymhellach) yn barod ar gyfer y model 'dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd' fel yr amlinellir yn y cynnig asesu newydd.

Rydym yn cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i ddsbarthu copïau papur o'u protocol i'r holl rieni / gofalwyr a'r dysgwyr. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod angen i gopïau caled fod ar gael yn hawdd, os oes angen.

Er ein bod yn cefnogi'r cynnig i ddiwygio trefniadau asesu, byddem yn pwysleisio'n gryf, er mwyn gwireddu manteision y newidiadau hyn, ei bod yn hanfodol fod ysgolion a chlystyrau yn cael eu cefnogi gan ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel i ddatblygu eu dealltwriaeth o ymagweddau effeithiol at asesu, a sicrhau 'dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd' fel yr amlinellir yn y cynnig asesu newydd.^[1]

^[1] [Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu](#)

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, beth yw eich prif rôl?

Dysgwr	<input type="checkbox"/>	Rhiant neu lywodraethwr	<input type="checkbox"/>
Athro	<input type="checkbox"/>	Llywodraethwr	<input type="checkbox"/>
Ymarferwr	<input type="checkbox"/>	Ymgynghorydd her	<input type="checkbox"/>
Uwch arweinydd	<input type="checkbox"/>	Swyddog gwella ysgolion	<input type="checkbox"/>
Pennaeth	<input type="checkbox"/>	Arolygydd	<input checked="" type="checkbox"/>
Prifathro / is-brifathro	<input type="checkbox"/>	Cynrychiolydd yr awdurdod lleol	<input type="checkbox"/>
Arall (nodwch):	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>

Cwestiwn 2 – O ba leoliad neu sefydliad ydych chi'n ymateb?

Lleoliad meithrin a gynhelir	<input type="checkbox"/>	Corff llywodraethol	<input type="checkbox"/>
Lleoliad meithrin nas cynhelir a ariennir	<input type="checkbox"/>	Consortiwm rhanbarthol	<input type="checkbox"/>
Ysgol gynradd	<input type="checkbox"/>	Awdurdod lleol	<input type="checkbox"/>
Ysgol uwchradd	<input type="checkbox"/>	Darparwr hyfforddiant preifat	<input type="checkbox"/>
Ysgol ganol	<input type="checkbox"/>	Trydydd sector	<input type="checkbox"/>
Uned cyfeirio disgyblion (UCD)	<input type="checkbox"/>	Llywodraeth	<input type="checkbox"/>
Ysgol arbennig	<input type="checkbox"/>	Sefydliad dyfarnu	<input type="checkbox"/>
Coleg addysg bellach	<input type="checkbox"/>	Undeb athrawon	<input type="checkbox"/>
Darparwr hyfforddiant preifat	<input type="checkbox"/>	Corff rheoleiddio (yn cynnwys arolygiaeth)	<input checked="" type="checkbox"/>
Dysgu oedolion yn y gymuned	<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch):	<input type="checkbox"/>

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n rhoi adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------

Os 'ydw', nodwch:

Estyn

Diddymu asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2

Hoffem archwilio eich barn ar y cynnig i ddileu asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2 o flwyddyn academaidd 2021 i 2022 ymlaen, gyda'r gofynion asesu statudol presennol eraill yn parhau ar waith hyd at gyfnod cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Gellir gweld manylion am y cynigion hyn yn y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 4 – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddileu asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen o flwyddyn academaidd 2021 i 2022 ymlaen?

Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Cytuno'n gryf
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb:

Teimlwn y bydd yr ymagwedd hon yn cynorthwyo arweinwyr mewn ysgolion i feddwl yn fwy gofalus am ddibenion asesu o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

Bydd dileu'r cysylltiadau rhwng asesu ac atebolrwydd yn cynorthwyo ysgolion i ailddychmygu rôl asesu fel rhywbeth sy'n hanfodol ar gyfer addysgu a dysgu da. Bydd hefyd yn helpu ysgolion a gwasanaethau gwella ysgolion i ystyried eu rôl mewn sicrhau a chefnogi gwelliant, ac nid rhoi pwyslais amhriodol ar agweddau ar asesu sy'n cael effaith gyfyngedig ar wella addysgu a dysgu.

Hefyd, bydd cael gwared ar yr asesiadau hyn yn cynorthwyo ysgolion i leihau'r defnydd o ddata di-fudd at ddibenion hunanwerthuso nad yw'n rhoi mewnwelediad digonol i'r hyn y mae disgyblion yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Er enghraifft, weithiau mae ysgolion yn olrhain deilliannau a lefelau asesedig athrawon (ac is-lefelau) i geisio dangos cynnydd, ond nid ydynt yn ystyried gwybodaeth ddefnyddiol a phenodol am fedrau a gwybodaeth disgyblion yn ddigonol, nac effaith addysgu ar gynnydd.¹

Bydd cael gwared ar yr angen i adrodd am ddeilliannau a lefelau yn allanol hefyd yn lleihau'r pwysau ar arweinwyr ac athrawon i sicrhau bod cynifer o ddisgyblion ag y bo modd yn cyrraedd 'deiliant neu lefel' ddisgwyliedig. Yn hytrach, gall arweinwyr ac athrawon fyfyrion fwy gofalus ar ddibenion asesu. Gallant feddwl yn gliriach am sut gallant ymgorffori ystod o ymagweddau wrth gynllunio eu cwricwlwm, ac wrth ystyried ansawdd yr addysgu sy'n ofynnol i ddarparu gwybodaeth gyfoethocach a mwy defnyddiol am ddysgu disgyblion. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys llawer o ysgolion yn adeiladu ar yr arferion ffurfiannol da y maent wedi'u datblygu trwy gydol y pandemig. Mae hyn yn hynod bwysig o fewn yr hinsawdd addysg bresennol ble mae ysgolion dan bwysau mewnol ac allanol sylweddol o hyd.

¹ [Adroddiad Blynyddol Estyn, tud.20](#)

Cwestiwn 5 – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gael gwared ar asesiadau Cyfnod Allweddol 2 o flwyddyn academaidd 2021 i 2022 ymlaen?

Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Cytuno'n gryf
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	✓

Esboniwch eich ateb:

Sylwer ar ein hymateb uchod, sydd hefyd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, wrth ystyried y cwestiwn hwn yn benodol, gallai fod angen ystyried y trefniadau pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 hefyd. Mae angen parhad mewn dysgu o hyd, ac er mwyn i staff yng Nghyfnod Allweddol 3 ddeall medrau a gwybodaeth disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 i adeiladu arnynt yn effeithiol. Er nad yw'n darparu darlun digon clir ar ei ben ei hun, defnyddiwyd y data ar asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol i gefnogi'r broses bontio hon. Heb y wybodaeth hon, bydd angen i ysgolion cynradd ac uwchradd feddwl yn ofalus am sut maent yn sicrhau dealltwriaeth ar y cyd o anghenion disgyblion ar yr adegau pontio hyn.

Yn ychwanegol, ni chaiff data ar asesiadau athrawon ei rannu gyda rhieni ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol. Er nad yw hyn yn rhoi mewnwelediad cynhwysfawr i rieni i gryfderau eu plant a'u meysydd i'w datblygu, mae wedi rhoi rhywfaint o ddealltwriaeth iddynt o'u cynnydd o ran cyrhaeddiad disgwylidig. Wrth symud ymlaen, teimlwn ei bod yn bwysig cynorthwyo ysgolion i ddatblygu llinellau cyfathrebu effeithiol gyda rhieni sy'n gwella ar y trefniadau adrodd blaenorol hyn. Bydd angen i ddulliau newydd helpu rhieni i ddeall yn gliriach beth mae plant yn gallu gwneud, beth mae angen iddynt ei wella, a sut y gellir eu cynorthwyo gartref.

Diddymu'r gofynion i gymedroli asesiadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a diwedd Cyfnod Allweddol 3

Pe byddai asesiadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn cael eu dileu o'r flwyddyn academaidd hon ymlaen, byddai cymedroli'r asesiadau hyn yn cael ei ddi-ddymu fel diwygiad canlyniadol.

Yn ogystal â hyn, hoffem archwilio eich barn ar y cynnig i ddileu'r gofynion i gymedroli'r asesiadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 o flwyddyn academaidd 2021 i 2022 ymlaen. Gellir gweld y manylion am y cynigion hyn yn y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 6 – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddileu'r gofynion i gymedroli asesiadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 o flwyddyn academaidd 2021 i 2022 ymlaen?

Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Cytuno'n gryf
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	✓

Esboniwch eich ateb:

Os caiff y gofyniad i ysgolion ddod at ei gilydd i gymedroli asesiadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 ei ddatgymhwyso, rydym yn cytuno na fyddai'n fuddiol gofyn i ysgolion uwchradd wneud trefniadau newydd gydag ysgolion uwchradd eraill i gymedroli asesiadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn ystod y cyfnod interim, hyd nes y cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru ym Mlwyddyn 9. Fodd bynnag, bydd angen i ysgolion uwchradd sicrhau cysondeb ar gyfer eu dysgwyr o hyd o ran sut y cânt eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Rydym yn cytuno y gellir gwneud hyn, ac y dylid gwneud hyn, mewn ysgolion, ac nad oes angen proses ar wahân ar ei gyfer.

Bydd cael gwared ar y gofyniad hwn yn caniatáu amser a lle i ysgolion a chlystyrau ddechrau meddwl am eu rhwydweithiau presennol (neu'u datblygu ymhellach) yn barod ar gyfer y model 'dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd', fel yr amlinellir yn y cynigion asesu newydd.²

Cwestiwn 7 – Parthed y cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, a oes yna unrhyw oblygiadau ehangach yn ymwneud â'r pontio o'r trefniadau asesu cyfredol i'r trefniadau asesu newydd y dylid eu hystyried? Rhwch fanylion isod:

Bydd yn bwysig sicrhau bod y gweithdrefnau newydd ar gyfer datblygu 'dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd' yn caniatáu profiad dysgu adeiladol a phroffesiynol ar gyfer staff ac nad dynt yn syml yn disodli'r trefniadau 'gwirio' cyfredol ar gyfer cymedroli.

Bydd eglurhad pellach ynglŷn â rôl asesiadau 'gwaelodlin' neu 'asesiad dechreuol' hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer ysgolion i'w galluogi i nodi manau cychwyn disgyblion yn gywir. Dylid alinio hyn yn agos â'r trefniadau sy'n cael eu datblygu ar gyfer plant sy'n cael eu haddysg mewn lleoliadau nas cynhelir.

Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 – prospectws awdurdodau lleol

Hoffem archwilio eich barn ar y cynnig i ddileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i ddosbarthu copiâu papur o'u prospectws i rieni / gofalwyr a dysgwyr yn eu blwyddyn bontio mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a allai drosglwyddo i ysgolion a gynhelir yn yr un modd. Mae eisoes yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi copi o'u protocol ar eu gwefan a threfnu bod copiâu ar gael ar gais yn eu swyddfeydd, ym mhob ysgol, ac er gwybodaeth mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Gellir gweld y manylion am y cynnig hwn yn y ddogfen ymgynghori.

² [Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu](#)

Cwestiwn 8 – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i ddosbarthu copïau papur o'u protocol i'r holl rieni / gofalwyr a dysgwyr yn eu blwyddyn drosglwyddo, p'un a ydynt eisiau copi ai peidio?

Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Cytuno'n gryf
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	✓	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb:

Fel yr amlinellir yn y cynnig, gall y rhan fwyaf o rieni / gofalwyr fynd at y wybodaeth hon ar-lein, a fydd yn lleihau costau ac effaith amgylcheddol awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'n bwysig fod copïau papur ar gael **yn hawdd** i deuluoedd eu caffael, a rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod rhieni'n gallu gofyn amdanynt heb fod angen dilyn gweithdrefnau beichus.

laith

Cwestiwn 9 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r ddeddfwriaeth yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Nid ydym yn teimlo y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn cael unrhyw effaith benodol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Mae angen parhaus am brotocolau Awdurdodau Lleol i sicrhau bod dogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar-lein, ac fel copïau papur.

Cwestiwn 10 – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y ddeddfwriaeth hon fel ei bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Ddim yn berthnasol

Cwestiwn 11 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd arnynt.

Mae atebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngwrwd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych aros yn ddiennw, ticiwch yma: